Polisi Cyfle Cyfartal Cyngor Cymuned Penmynydd

1. Mae Cyngor Cymuned Penmynydd yn ceisio hyrwyddo polisïau sy'n adlewyrchu'r gymuned amrywiol gan roi gwerth ar gyfraniadau unigol pobl beth bynnag yw eu hiaith, eu cred, eu rhyw, eu tueddfryd rhywiol, eu hoedran, eu statws priodasol, eu hanabledd, eu hil, eu lliw, eu crefydd neu eu tras ethnig neu genedlaethol.

2. Bydd Cyngor Cymuned Penmynydd yn gwrthsefyll pob rhagfarn uniongyrchol ac anuniongyrchol yn ei arferion cyflogaeth ac wrth ddarparu ei wasanaethau.

3. Bydd Cyngor Cymuned Penmynydd yn ceisio sicrhau cynrychiolaeth deg a chytbwys o bob sector o'r gymuned leol ac yn sicrhau bod y gwasanaeth a ddarperir yn cyfarfod ag anghenion y gymuned leol.

4. Bydd Cyngor Cymuned Penmynydd yn gweithredu i sicrhau y glynir at y polisi hwn wrth ddewis unrhyw ymgeisydd am unrhyw swydd neu gytundeb.

5. Bydd pob cyfundrefn a sefydlir yn sgil yr ymrwymiadau a nodir uchod yn cael eu monitro fel bo'r angen i sicrhau effeithiolrwydd a gwneir newidiadau lle bo'n addas neu fel bo angen.

6. Bydd unrhyw Is-bwyllgor, neu gorff wedi ei ddirprwyo, sy'n cael ei reoli gan y Cyngor yn rhwym i'r polisi hwn.

Bydd y Polisi Cyfle Cyfartal yn cael ei ddiweddaru bob pedair blynedd, neu ynghynt na hynny yn sgil rheoliadau newydd neu newid mewn deddfwriaeth. Bydd angen mwyafrif o ddeuparth o'r holl Gynghorwyr i newid y Polisi Cyfle Cyfartal.

Llofnodwyd gan: Dafydd Idriswyn Roberts (Cadeirydd)

08-05-2018

Adolygwyd 01-02-2023